Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Masnach Electronig (Mabwysiadu a Phlant) (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019** |
| **DYDDIAD** | **26 Mehefin 2019** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Masnach Electronig (Mabwysiadu a Phlant) (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019**

**Y gyfraith sy'n cael ei diwygio**
Mae Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Masnach Electronig (Mabwysiadu a Phlant) (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019 yn diwygio'r darnau canlynol o ddeddfwriaeth:

- Deddf Addysg 2002
- Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Masnach Electronig (Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002) 2005

Mae Rheoliadau 2019 yn cynnwys darpariaethau sy'n dod o fewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Mae effaith o bosibl ar gymhwysedd gan nad yw'r OS ond yn dileu yn rhannol rhai darpariaethau sy'n Deillio o Atodlen 11B i Reoliadau'r Gyfarwyddeb Masnach Electronig (Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002) 2005. Mae'n gadael darpariaethau sy'n Ymwneud ag eithriadau (rhag y drosedd) ar gyfer eithriadau (rhag y drosedd) ar gyfer cwndidau, storio a gwe-letya. Effaith hyn yw y caiff y darpariaethau hynny sy'n aros yn cael cadw yng nghyfraith yr UE. Effaith hyn yw na fydd gan y Cynulliad bwerau i addasu cyfraith yr UE a ddargedwir os bydd Gweinidog y Goron yn Llywodraeth y DU yn gwneud rheoliadau i'r perwyl hwnnw o dan adran 109A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Diben y diwygiadau**
Mae'r Gyfarwyddeb Masnach Electronig (eCD) yn rheoleiddio rhai agweddau cyfreithiol ar "gwasanaethau cymdeithas wybodaeth" ar draws yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) sy'n anelu at ddileu rhwystrau i wasanaethau ar-lein trawsffiniol yn yr Undeb Ewropeaidd (UE) ac i ddarparu sicrwydd cyfreithiol i fusnesau a dinasyddion mewn cyfieithiadau ar-lein trawsffiniol. I bob pwrpas, mae'n creu cynllun cydnabyddiaeth gilyddol.

Mae'r eCD yn gwneud darpariaeth benodol y cyfeirir ati fel yr egwyddor ‘gwlad wreiddiol’ (CoO). Ym maes masnach electronig, mae hwn yn drefniant cyfatebol sy'n golygu, lle mae darparwr cymdeithas wybodaeth ar-lein (ISSP) yn gweithredu o sefydliad mewn gwladwriaeth yn yr EEA, y bydd cyfraith y wladwriaeth benodol honno'n gymwys i weithgareddau ISSP.

Pan na fydd y DU bellach yn aelod o'r UE, ac os ceir Brexit heb gytundeb, bydd dileu cysyniad y wlad wreiddiol yn golygu bydd yn ofynnol i ISSPs gydymffurfio â'r rheolau sy'n llywodraethu gweithgareddau ar-lein ym mhob un o wladwriaethau'r EEA y maent yn gweithredu o'u mewn. Bydd ISSPs sy'n gweithredu o wladwriaethau’r EEA yn peidio ag elwa ar yr esemptiad presennol rhag erlyniad yn y DU, Cymru a Lloegr am droseddau a sefydlwyd gan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (adran 92 a 123) ac atodlen 11B i Ddeddf 2002. Ni fydd ISSPs sy'n gweithredu yn y DU sy'n cyflawni trosedd o dan adran 92, 123 neu Ddeddf 2002 mewn gwladwriaeth yn yr EEA bellach yn cael eu trin yn awtomatig fel pe baent wedi cyflawni'r troseddau hynny yn y DU, neu yng Nghymru a Lloegr yn eu trefn.

Mae Rheoliadau 2019 yn dileu'n llawn egwyddor gwlad wreiddiol o ddeddfwriaeth y DU sy'n rhoi eCD ar waith ac o ganlyniad mae'r darpariaethau sy'n rhoi effaith i'r egwyddor gwlad wreiddiol yn Neddf 2002 a Rheoliadau 2005 yn cael eu dileu gan yr offeryn hwn. Ar ôl ymadael â'r UE, bydd cyfreithiau'r DU yn gymwys i holl ddarparwyr ar-lein a leolir yn yr EEA wrth weithredu yn y DU. Bydd darparwyr, ni waeth beth fo eu tarddiad, yn ddarostyngedig i gyfreithiau'r DU wrth ddarparu gwasanaethau yn y DU.

Mae'r OS hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol eraill y mae eu hangen i adlewyrchu'r ffaith na fydd y DU bellach yn aelod o'r UE.

Mae'r OS a'r Memoranda Esboniadol cysylltiedig sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau i'w gweld yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-electronic-commerce-directive-adoption-and-children-amendment-etc-eu-exit-regulations-2019-revised

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran ac ar ran Cymru, am resymau’n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau ac er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn parhau'n weithredol ar ôl y diwrnod ymadael. Mae’r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i’r DU ymadael â’r UE. Mae hyn yn cydymffurfio â’r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt gan Is-bwyllgor y Cabinet ar y Trefniadau Pontio Ewropeaidd.

Mae Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hefyd wedi’i osod yn y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â’r diwygiadau i Ddeddf Addysg 2002.